TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru

10 Mawrth 2021

Annwyl Russell, Aelodau'r Senedd,

Yn ystod y datganiad a wnaed ar 3 Tachwedd 2020 gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch dyfodol rheilffyrdd, gwnaeth y Gweinidog ymrwymiad i Trafnidiaeth Cymru i ysgrifennu at yr Aelodau ynghylch costau a gwerthoedd asedau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo rheilffyrdd i berchnogaeth gyhoeddus.

Rwyf felly'n ysgrifennu at yr Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y costau a'r gwerthoedd hyn, ac i roi rhagor o gyd-destun i'r broses gwneud penderfyniadau bryd hynny.

Fel y byddwch yn cofio, ym Mawrth 2020, cyrhaeddodd pandemig COVID19 y DU, ac o ganlyniad, cyflwynwyd cyfyngiadau'r cyfnod clo gan y llywodraeth er mwyn ceisio cyfyngu'r pandemig a lliniaru ei effeithiau ar iechyd. Arweiniodd hyn at ostyngiad o c90% mewn refeniw teithwyr gan roi'r gweithredwr (Keolis Amey Wales, gweithredwr Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) mewn sefyllfa ariannol anghynaliadwy. Er mwyn sefydlogi'r contract a sicrhau bod gweithrediadau teithwyr yn parhau, gwnaethpwyd Cytundeb Mesurau Brys lle trosglwyddwyd yr holl risg o ran costau a refeniw i'r Awdurdod, Llywodraeth Cymru, o dan reolaeth Trafnidiaeth Cymru (TrC). Roedd hwn yn drefniant gweddol debyg i'r un yr oedd Adran Drafnidiaeth y DU wedi ymrwymo iddo ar gyfer ei gwmnïau gweithredu trenau a reolwyd.

Er bod y Cytundeb Mesurau Brys yn rhoi sefydlogrwydd tymor byr i'r contract, nid oedd yn cael ei ystyried yn ateb tymor hir na thymor canolig. O ganlyniad, mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru, dechreuodd TrC broses gadarn o ddarlunio opsiynau er mwyn canfod yr opsiwn mwyaf priodol a fyddai'n sicrhau parhad gwasanaethau rheilffyrdd a sicrhau y byddai'r gwaith adnewyddu seilwaith rheilffyrdd sy'n angenrheidiol ar gyfer Metro De Cymru – un o amcanion allweddol Llywodraeth

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Cymru a TrC – yn parhau i gael ei gyflawni gan amharu cyn lleied â phosib. Drwy ddarlunio opsiynau, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, ond hefyd y meini prawf allweddol eraill fel gwerth am arian, diogelwch a chydymffurfiad cyfreithiol. Yn dilyn y broses drylwyr hon, penderfynwyd mai'r opsiwn a ffafriwyd oedd:

1. **Gweithredu'r dull 'Gweithredwr Dewis Olaf' ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.**
2. **Yn unol â'r is-gontract seilwaith presennol gydag Amey Keolis Infrastructure Ltd (AKIL) i TrC barhau i reoli seilwaith ar wasanaethau Adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd a Llinellau Craidd y Cymoedd.**
3. **Gwneud trefniant menter ar y cyd ag Amey a Keolis i sicrhau mynediad at Eiddo Deallusol (ED), trwyddedau, cymorth technegol ac i gryfhau'r gwaith o integreiddio cerbydau newydd i linellau craidd y cymoedd sydd wedi'u hadnewyddu.**

Y strategaeth gyffredinol wrth fynd i'r afael â materion a oedd yn ymwneud â COVID-19 oedd sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd yn gadael dan reolaeth a'u bod yn trosglwyddo'n ddidrafferth i Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf., er mwyn diogelu, cymaint ag y bo modd, yr amserlen ar gyfer cyflawni Rhaglen Adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd drwy barhad tîm cyflawni prosiect Amey, a sicrhau bod modd rhoi'r seilwaith a'r cerbydau newydd ar waith yn unol â'r cynllun. Mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio wedi'i ddylunio i gyflawni'r amcan hwn.

Yr opsiwn arall oedd gweld y Gweithredwr a'r Partner Datblygu (ODP) yn dychwelyd at delerau Cytundeb Grant ODP pe na ellid cytuno ar delerau terfynu Cytundeb Grant ODP a threfniadau yn y dyfodol, gan arwain at derfynu drwy "Fethiant" sy'n codi o'r ODP yn rhedeg allan o arian parod o fewn cyfnod byr (ar y pryd, amcangyfrifwyd bod hyn oddeutu 4 i 6 wythnos), a gweithredu'r opsiwn wrth gefn: OLR (drwy Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) a Rheolwr Seilwaith Last Resort (IMLR) a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros IM ar Linellau Craidd y Cymoedd a darparu gwasanaethau Adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd. Disgrifir yr opsiwn hwn fel "gadael heb reolaeth". Cafodd opsiynau eraill eu hystyried, ond oherwydd ansicrwydd y refeniw sy'n gysylltiedig ag effaith Covid-19, a'r anhawster wrth lunio contractau ar gyfer dosrannu'r risg, ni chafodd yr opsiynau hyn eu hystyried.

Aseswyd y costau i Lywodraeth Cymru weithredu'r opsiwn a ffafrir er mwyn bodloni gofynion Cymorth Gwladwriaethol. Aseswyd bod cost "gadael heb reolaeth" yn sylweddol uwch na'r costau i Lywodraeth Cymru o'r opsiwn "gadael dan reolaeth" sy'n cael ei ffafrio. Roedd nifer o anfanteision eraill hefyd yn ogystal â'r anfanteision ariannol sy'n gysylltiedig â "gadael heb reolaeth". **Amcangyfrifwyd y byddai'r gost i Lywodraeth Cymru o derfynu drwy achos o fethiant ('terfynu heb ei reoli') rhwng £124m a £155m**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**(os nad oedd Cefnogaeth y Rhiant-Gwmni wedi'i llunio eto gan yr ODP a Llywodraeth Cymru). Fel arall, petai Cyfleuster Cefnogaeth y Rhiant-Gwmni eisoes wedi'i lunio gan yr ODP cyn gadael, byddai'r gost rhwng £159m a £190m.**

Pe bai costau setliad ymgyfreitha a risgiau eraill wedi cael eu cynnwys, byddai'r gost i Lywodraeth Cymru wedi gallu bod yn uwch na'r amcangyfrifon hyn. Roedd y prif risgiau o adael heb reolaeth yn ymwneud ag effeithiau oedi sylweddol iawn ar Adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys y risg o golli Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERD). Byddai terfyniad heb ei reoli yn debygol o fod wedi creu risgiau eraill yn ychwanegol at gostau amharu ar raglen Adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chysylltiadau diwydiannol, amharu ar wasanaethau, setlo unrhyw ymgyfreitha gyda'r ODP, oedi gyda cherbydau a chosbau difrifol yn sgil hynny, yn ogystal â cholli staff allweddol.

O ganlyniad, o safbwynt ariannol pur, roedd terfyniad wedi'i reoli yn amlwg yn opsiwn a oedd yn arwain at y canlyniad cost isaf a (drwy leihau'r risg o oedi gyda rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd ac ymgyfreitha) hefyd y risg leiaf, ac felly argymhellwyd ei fod yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian, ar wahân i'r manteision ychwanegol sydd wedi deillio o'r model gweithredu newydd.

**Mae'r gost net sy'n gysylltiedig â'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio, fel yr amlinellir uchod, yn dod i £16.1m ar hyn o bryd (sy'n dal i fod yn amodol ar sicrwydd archwilio terfynol),** sy'n cynnwys yr asedau net sydd eu hangen i barhau i weithredu gwasanaethau'n effeithiol, y ffi ar gyfer y fenter barhaus ar y cyd â Keolis Amey, gwerth eiddo deallusol a mynediad at systemau sy'n angenrheidiol ar gyfer integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol, a chostau symud OLR. **Fel rhan o'r trosglwyddiad, ac wedi'i gynnwys o fewn y gost net o £16.1m, mae Trafnidiaeth Cymru wedi sicrhau asedau sefydlog sy'n angenrheidiol i redeg y busnes ac mae'r rhain werth £28.5m.**

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn, ac os oes gennych ragor o gwestiynau am unrhyw un o'r manylion uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

James Price

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive